Consortiwm Rhyngwladol Cymru
Wales International Consortium

Ffurfiwyd Consortiwm Rhyngwladol Cymru (WIC) yn 2003 gan y sefydliadau addysg uwch yng Nghymru er mwyn hybu Cymru yn y farchnad ryngwladol, fel cyrchfan astudio a phartner ac mae'n enghraifft ragorol o'r holl sector addysg uwch yn gweithio gyda'i gilydd er lles i bawb. Caiff ei ariannu gan CCAUC a'i aelodau. Mae WIC yn bwriadu cynyddu recriwtio ar gyfer astudiaethau rhyngwladol llawn amser yng Nghymru, gan gydweithio â sefydliadau sy'n aelodau.

Ers dechrau WIC, bu cynnydd yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol a ddaeth i Gymru, sy'n cymharu'n ffafriol â gweddill y DU. Mae'r niferoedd hefyd yn uwch na tharged Ymestyn yn Uwch Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer recriwtio myfyrwyr rhyngwladol.

Mae CCAUC, Sefydliadau AU yng Nghymru, Addysg Uwch Cymru (HEW), a'r Cyngor Prydeinig Cymru yn cael eu cynrychioli ar fwrdd WIC. Mae Prifysgol Cymru yn aelod cysylltiol.

Am fwy o wybodaeth ewch i wefan WIC